# Y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 5 Rhagfyr 2012** |
| Amser: | **09:30 - 10:45** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_300000_05_12_2012&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Christine Chapman**<br>**Paul Davies**<br>**Mike Hedges**<br>**Ann Jones**<br>**Julie Morgan**<br>**Ieuan Wyn Jones** |
| Tystion: | **Gretel Leeb, Rhaglen Cymru Fyw**<br>**Kevin Ingram, Rheolwr Cyllid, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Gareth Price (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Martin Jennings (Ymchwilydd)**<br>**Eleanor Roy (Ymchwilydd)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Kerry Dearden (Ymchwilydd)**<br>**Ben Stokes (Ymchwilydd)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

### 2. Buddsoddi i Arbed - Cyfoeth Naturiol Cymru

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Gretel Leeb, Uwch Swyddog â Chyfrifoldeb, rhaglen Cymru Fyw; a Rob Bell, yr Adran Gyllid, rhaglen Cymru Fyw, i'r cyfarfod.

2.2 Holodd y Pwyllgor y tystion.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd y rhaglen Cymru Fyw ddarparu:

- Rhagor o wybodaeth am y pwerau benthyca sydd ar gael i'r rhaglen Cymru Fyw i ariannu'r gwaith o sefydlu'r un corff amgylcheddol.
- Rhagor o wybodaeth am beth fyddai'r gwelliannau amgylcheddol a'r gwasanaethau i bobl a busnesau o gyfanswm arbedion y prosiect.

## 3. Papurau i'w nodi

3.1Nododd y Pwyllgor y papurau, gan gynnwys papur preifat ychwanegol ar Gomisiwn Silk. Nodwyd cofnodion y cyfarfod ar 21 Tachwedd 2012 hefyd.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitemau 5 i 7

## 5. Ystyried tystiolaeth ar y rhaglen Buddsoddi i Arbed

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd ar ei ymchwiliad i'r rhaglen Buddsoddi i Arbed.

## 6. Ystyried adroddiad drafft 'Effeithiolrwydd Cyllid Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru'

6.1 Derbyniodd y Pwyllgor ei adroddiad drafft 'Effeithiolrwydd Cyllid Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru'.

## 7. Ystyried y rhaglen waith ar gyfer tymor y gwanwyn 2013

7.1 Trafododd y Pwyllor ei blaenraglen ddrafft ar gyfer tymor y gwanwyn 2013.